Archifau Gwent Archives

GWASANAETH ARCHIFAU ACHREDEDIG
ACCREDITED ARCHIVE SERVICE



# Canllaw i Gofnodion Ysbytai ac Iechyd Archifau Gwent


Proposed Hospital Monmouth
ew Hospital opened Nov. 6th 1903
redegar Park
ottage Hospital.
RULES
for
Voluntary Subscribers.
Premature Live-Born Infants
ANÆSTHETIC BOOK
FOWELL DUFFRYN
WORKMEN'S COTTAGE HOSPITAL,
ABER BARGOED.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **4** |
| **Llinell Amser Gweinyddu Cyn y GIG ac ar ôl y GIG** | **4** |
| **Mathau o Gofnodion** | **6** |
| **Darganfod y Casgliadau** | **7** |
| **Mynediad y Casgliadau** | **8** |
| **Y Casgliadau** | **8** |
| **Cyfrifon y Comisiwn Elusennau** | **8** |
| **Cofnodion Iechyd Sirol** | **9** |
| **Canolfannau Iechyd** | **13** |
| **Ysbytai** | **14** |
| **Aberbargoed** | **14** |
| Ysbyty Bwthyn y Gweithwyr Duffryn Powell ac yn ddiweddarach Ysbyty Dosbarth Aberbargoed a'r Fro | 14 |
| **Y Fenni** | **14** |
| Fferyllfa y Fenni/Ysbyty Bwthyn Fictoria | 14 |
| Ysbyty Llys Maindiff, y Fenni | 15 |
| Ysbyty Neuadd Nevill (Nevill Hall), y Fenni | 15 |
| Ysbyty Pen-y-fal, y Fenni | 16 |
| **Abertyleri** | **17** |
| Ysbyty Abertyleri a'r Fro, Aber-big | 17 |
| **Blaenafon** | **17** |
| Ysbyty Blaenafon | 17 |

| | |
|---|---|
| **Blaenau** | **18** |
| Ysbyty'r Blaenau a'r Fro | 18 |
| **Caerffili** | **18** |
| Ysbyty'r Glöwyr Dosbarth Caerffili | 18 |
| **Cas-gwent** | **18** |
| Ysbyty'r Groes Goch Tŷ Gwy, Cas-gwent | 18 |
| **Crucywel** | **19** |
| Ysbyty Coffa'r Rhyfel Crucywel | 19 |
| **Cwmbrân** | **19** |
| Ysbyty Mamolaeth Y Faenor Llanfrechfa, Cwmbrân | 19 |
| **Glynebwy** | **19** |
| Ysbyty Glynebwy | 19 |
| Ysbyty Gwirfoddol Glynebwy | 19 |
| Cymdeithas Cymorth Meddygol y Gweithwyr Glynebwy | 20 |
| **Trefynwy** | **20** |
| Ysbyty a Fferyllfa Trefynwy yn ddiweddarach Ysbyty Cyffredinol Trefynwy | 20 |
| **Casnewydd** | **20** |
| Ysbyty Mamolaeth Lydia Beynon | 20 |
| Ysbyty Brenhinol Gwent | 21 |
| Ysbyty Sant Cadog, Caerllion | 21 |
| Clafdy Tŷ Woolaston, yn ddiweddarach Ysbyty Gwynllyw | 22 |

**Oakdale** **22**
Ysbyty'r Gweithwyr Oakdale 22
**Pont-y-pŵl** **22**
Ysbyty'r Sir, Pont-y-pŵl 22
Ysbyty Pont-y-pŵl a'r Fro 22
**Tredegar** **23**
Ysbyty Bedwellte 23
Ysbyty Bwthyn Parc Tredegar, yn ddiweddarach Ysbyty Cyffredinol Tredegar 23
Cymdeithas Cymorth Meddygol y Gweithwyr Tredegar 23
Clafdy Ty Bryn, yn ddiweddarach Ysbyty Sant Iago, Tredegar 23
**Brynbuga** **23**
Ysbyty Cefn Ila 23
**Pwyllgorau Rheoli'r Ysbytai** **24**
**Ysbytai Ynysu** **24**
**Gwasanaethau Mamolaeth a Bydwreigiaeth** **25**
**Ffotograffau a Chardiau Post** **26**
**Llyfrau** **28**
**Erthyglau a Chyhoeddiadau** **29**
**Gwefannau Defnyddiol** **29**
**Contact Us** **29**

# Cyflwyniad

Datblygwyd y canllaw hwn yn rhan o brosiect 'Ceiniog o Bob Punt" Ymddiriedolaeth Wellcome, i gatalogio cofnodion ysbytai a gofal iechyd yng Ngwent a sicrhau eu bod ar gael. Mae'n rhoi cefndir a chyd-destun i'r cofnodion, yn manylu ar y mathau o gofnodion a geir yn y casgliadau, canllawiau i ddod o hyd i gofnodion ysbytai a gofal iechyd yn ogystal â gwybodaeth am gael mynediad i'r cofnodion. Yn bwysicaf oll, mae'n darparu rhestr gynhwysfawr o'r casgliadau sydd gennym ni, yn ogystal ag awgrymiadau ar gyfer darllen pellach a gwefannau defnyddiol.

Mae'r cofnodion yn datgelu cyfoeth o wybodaeth am ofal iechyd yng Ngwent cyn y GIG ac ar ôl y GIG, ond mae'r cofnodion yn adlewyrchu'r cyfnod y cawsant eu creu a gallent gynnwys termau sarhaus neu ddadleuol sy'n disgrifio hil, rhyw, dosbarth, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd ac iechyd meddwl. Gallai hyn ypsetio rhai ymchwilwyr.

# Llinell Amser Gweinyddu Cyn y GIG ac Ar Ôl y GIG

## Cyn 1948

Roedd Ysbytai Sir Fynwy naill ai'n cael eu rhedeg yn breifat neu'n cael eu hariannu a'u datblygu'n annibynnol, yn bennaf trwy Gymdeithasau Cymorth Meddygol lleol. Roedd y Cymdeithasau hyn yn casglu arian o gyfraniadau gan ddynion gweithiol, tanysgrifiadau preifat, a rhoddion gan noddwyr cyfoethog. Allan o bryder ynghylch iechyd eu gweithwyr a'u teuluoedd, creodd cyflogwyr y cwmnïau lleol y Cymdeithasau Cymorth Meddygol cyntaf i Weithwyr yn y 1870au.

Wedi hynny, adeiladodd y cymdeithasau hyn ysbytai a reolwyd ar wahân gan fwrdd ysbyty neu bwyllgor rheoli etholedig.

Yr eithriadau i sefydliadau a ariannwyd gan Gymdeithasau Cymorth Meddygol oedd Ysbyty Tŷ Bryn (Ysbyty Sant Iago erbyn hyn) a Thŷ Woolaston (Ysbyty Sant Gwynllyw erbyn hyn) a oedd yn ysbytai wyrcws a ariannwyd gan yr awdurdod lleol.

## 1948

Yn sgil cyflwyno'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol ym 1948 daethpwyd â'r amrywiaeth eang o ysbytai yn Sir Fynwy o dan berchnogaeth gyhoeddus.

## Ar Ôl 1948

Ym mlynyddoedd cynnar y GIG crëwyd pedwar bwrdd rheoli ysbytai o dan ymbarél Bwrdd Ysbytai Cymru. Byddai pwyllgorau'r byrddau hyn yn gweinyddu'r grwpiau o ysbytai lleol a oedd yn dod o fewn eu hardaloedd perthnasol.

Dyma Bwyllgorau Rheoli'r Ysbytai, a'u hysbytai cysylltiedig:

Casnewydd a Dwyrain Sir Fynwy

- Ysbyty Brenhinol Gwent
- Tŷ Gwynllyw
- Allt-yr-Yn
- Mamolaeth Lydia Beynon
- Pont-y-pŵl a'r Fro
- Ysbyty Sirol Sir Fynwy, Panteg
- Cas-gwent a'r Fro
- Mamolaeth Llanfrechfa

Rhymni a Dyffryn Sirhywi

- Ysgol Hyfforddi Nyrsys Redbrook a'r Glowyr Rhanbarth Caerffili
- Ynysu Energlyn, Caerffili
- Gweithwyr Abertyswg Rhymni
- Cofeb Redwood, Rhymni
- Gweithwyr Oakdale
- Ynysu Gelligaer
- Gweithwyr Powell Dyffryn
- Parc Tredegar (Ysbyty Cyffredinol Tredegar)
- Mamolaeth Tredegar a'r Fro
- Tŷ Bryn
- Ynysu Ashvale, Tredegar

Gogledd Sir Fynwy

- Abertyleri a'r Cylch, Aber-bîg
- Ysbyty Bwthyn Fictoria, Y Fenni
- Y Blaenau a'r Cylch
- Gweithwyr Blaenafon
- Cofeb Ryfel Crucywel
- Glynebwy
- Ysbyty Cyffredinol Trefynwy



THE ROYAL VISIT TO BLAINA

FOR THE

OPENING of the

New Maternity Wing

AT THE

Nantyglo and Blaina District Hospital

on Thursday, March 17th, 1932

H.R.H. DUCHESS OF YORK

H.R.H. DUKE OF YORK

PROGRAMME.

11 o'clock, their Royal Highnesses the Duke and Duchess of York arrive at the Hospital Gates, where they will be received by Major-General Lord Treowen, Deaconess Ina Brodigan (Hon. President), Coun. Dd. Matthews (Chairman), Coun. J. Pitman (Secretary), Coun. J. Adams (Treasurer and Organizing Sec.), and Matron, Miss E. John.

The Brynmawr Band will play the National Anthem—GOD SAVE THE KING.

They then proceed to the Hospital, where the British Legion on the right will form a Guard of Honour, and on the left the Boy Scouts and Girl Guides.

His Royal Highness will then inspect the Guard of Honour.

The Brynmawr Silver Band will play a Selection during the Inspection (under the Conductorship of Mr. S. Mountfield.)

To be followed by the singing of the Welsh National Anthem, "Hen Wlad fy Nhadau," in Welsh by the United School Children's Choir (under the Conductorship of Mr. O. Huggins and Mr. Ken Richards, during which time the people who are to be presented to their Royal Highnesses will be presented.

Her Royal Highness will then proceed to the New Wing accompanied by Major-General Lord Treowen, Deaconess Ina Brodigan, (Hon. President), Coun. Dd. Matthews, (Chairman), and Matron, Miss E. John, where she will be presented with the key by the Chairman, and will afterwards perform the Opening Ceremony.

Dyffryn Wysg

- Pen y Fal, Y Fenni
- Llys Maindiff
- Y Faenor Llanfrechfa
- Sant Cadog

## 1974

Ym 1974 yn sgil ad-drefnu awdurdodau lleol, crëwyd Awdurdod Iechyd Gwent. I ddechrau, rhannwyd yr Awdurdod hwn yn ddau Ranbarth Iechyd - Gogledd Gwent a De Gwent:

- Roedd Rhanbarth Iechyd Gogledd Gwent yn gyfrifol am yr ysbytai a weinyddwyd yn flaenorol gan Bwyllgor Rheoli Ysbyty Gogledd Sir Fynwy ynghyd ag ysbytai gofal iechyd meddwl Pen-y-Fal a Llys Maindiff.

- Roedd Rhanbarth Iechyd De Gwent yn cwmpasu ysbytai hen Bwyllgor Rheoli Ysbyty Casnewydd a Dwyrain Sir Fynwy.

## 1982

Yn ystod y flwyddyn hon, yn lle'r ddau awdurdod iechyd rhanbarthol a fodolai (Gogledd Gwent a De Gwent) cyflwynwyd saith uned a oedd, gyda'i gilydd, yn creu un Awdurdod Iechyd Rhanbarthol newydd ar gyfer Gwent Gyfan. Roedd yr unedau'n gyfrifol am weithgareddau gweithredol a dyma oedd yr unedau hynny:

- Uned Gogledd Gwent
- Uned Canolbarth Gwent
- Uned Cas-gwent
- Uned Casnewydd
- Uned Meddwl Gogledd Gwent
- Uned Meddwl De Gwent
- Uned Iechyd Cymunedol Gwent

Roedd Awdurdod Iechyd Rhanbarthol newydd Gwent Gyfan yn gyfrifol am weithgareddau strategol.

## 1999


Sefydlwyd Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent ym mis Ebrill 1999. Crëwyd yr Ymddiriedolaeth hon trwy uno Ymddiriedolaethau GIG Rhanbarthol Glan Hafren, Iechyd Cymunedol Gwent a Neuadd Nevill (Nevill Hall) a'r Fro. Hon oedd un o'r Ymddiriedolaethau mwyaf a phrysuraf yn y DU ac roedd yn cysylltu ysbytai Caerffili a Gwent.

## Hydref 2009

Ar y dyddiad hwn lansiwyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a grëwyd trwy uno Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent a byrddau iechyd lleol Blaenau Gwent, Caerffili, Casnewydd, Torfaen a Sir Fynwy.

# Mathau o Gofnodion

Yn y casgliadau ysbytai a gofal iechyd mae yna amrywiaeth eang o gofnodion a grëwyd trwy brosesau rheoli a gweithredol y sefydliadau perthnasol.




Yn Archifau Gwent rydym yn cadw cofrestrau a llyfrau adroddiadau yn bennaf ac maent yn cynnwys gwybodaeth am gleifion a gofnodwyd yn rhan o'r gwaith o redeg yr ysbytai o ddydd i ddydd, er enghraifft:

- Cofrestrau derbyn/rhyddhau
- Cofrestrau genedigaethau
- Llyfrau damweiniau ac achosion brys
- Cofrestrau gweithrediadau
- Adroddiadau ward dyddiol

Er bod y mathau hyn o gofnodion yn cynnwys manylion enwau, cyfeiriadau, cyflyrau iechyd a thriniaethau a allai fod o ddiddordeb mawr i ymchwilwyr, anaml y cewch hyd i ffeiliau achos meddygol llawn sy'n ymwneud yn benodol ag unigolion yng nghasgliadau'r ysbytai cyffredinol. Yn bennaf, mae'r cofnodion sydd gennym yn sgil-gynhyrchion prosesau gweinyddol, yn hytrach nag enghreifftiau o ffeiliau sy'n canolbwyntio ar gleifion a grëwyd trwy ymgynghoriad meddygol un-i-un.

Lle maent yn bodoli, gall ffeiliau sy'n benodol i gleifion gynnwys cofnodion diagnosis, cynlluniau triniaeth/dyddiaduron, canlyniadau profion a gohebiaeth (ond nid ydynt yn gyfyngedig i'r rhain). Yn bennaf, gellir cael hyd i'r prif enghreifftiau o'r mathau hyn o ffeiliau/nodiadau achos disgrifiadol neu, yn gyffredinol, dadansoddiadau manylach o'r cleifion, yn ein casgliadau Pen y Fal a Sant Cadog.

Fodd bynnag, cewch hyd i rai cofnodion cleifion ar ficroffilm hefyd o fewn prif gasgliadau'r ysbytai a derbynion mwy diweddar. Fel arfer, mae'r cofnodion hyn wedi'u trefnu yn ôl y wyddor yn ôl cyfenw ar y ffilm/ffish ac yn aml dim ond sampl o'r cofnodion sy'n cael eu cadw/adneuo gan y bwrdd iechyd.

Mae ein casgliad hefyd yn cynnwys nifer o gynlluniau adeiladau/datblygiadau ar gyfer ysbytai lleol. Mae'r rhain i'w gweld yn bennaf yng nghatalogau D4073 Ysbyty Pont-y-pŵl a'r Fro 1913-1987 a D5175 Cynlluniau Ysbytai'r GIG 1947- tua 1987, er, nid yno'n unig y ceir hyd iddynt, felly mae'n werth chwilio y tu allan i'r casgliadau hyn.

# Darganfod y Casgliadau

Yn gyffredinol, daw ein casgliadau ysbytai ac iechyd sydd yn y catalog o fewn un o'r categorïau canlynol:

- Cymdeithasau Cymorth Meddygol
- Ysbytai (yn ôl enw)
- Pwyllgorau Rheoli Ysbytai
- Ysbytai Wyrcws
- Cofnodion Iechyd Sirol Sir Fynwy
- Canolfannau Iechyd

Yn ogystal â'r canllawiau hyn, mae'r ffolder las 'Ysbytai' sydd ar y silffoedd yn yr Ystafell Ymchwil yn adnodd defnyddiol. Mae'r ffolder wedi'i threfnu yn nhrefn y wyddor yn ôl lleoliad yr ysbyty ac mae'n rhoi rhai disgrifiadau manylach ar lefel eitemau ar gyfer ein casgliadau.

Gellir chwilio am enwau meddygol/ysbytai hefyd gan ddefnyddio'r mynegai pwnc yn y cabinet cardiau mynegai. Mae'r cardiau mynegai ar gyfer cofnodion Iechyd Sirol Sir Fynwy yn y cabinet hwn hefyd.

Mae gennym gasgliadau ysbytai ac iechyd ar gadw hefyd sydd ddim wedi cael eu catalogio eto, ac felly os oes diddordeb gennych mewn ysbyty neu fwrdd iechyd penodol, cysylltwch â ni trwy enquiries@gwentarchives.gov.uk a gallwn wirio ein cofnodion a rhoi rhagor o wybodaeth i chi.

# Mynediad at y Casgliadau

Rhoddir mynediad at gasgliadau'r archif ar y safle yn Archifau Gwent, a gellir anfon ymholiadau trwy e-bost.

Mae rhai cyfyngiadau i fynediad, oherwydd yn aml mae yna ddeunydd sensitif yn ein casgliadau ysbytai a gofal iechyd sy'n destun i gyfyngiadau ar fynediad o dan reoliadau diogelu data (GDPR 2018). Yn gyffredinol, ystyrir bod y mathau hyn o gofnodion 'ar gau' am o leiaf 100 mlynedd, sy'n rhychwantu hyd oes tybiedig y sawl sy'n destun i'r cofnodion. Gall hyn amrywio, gan ddibynnu ar gynnwys y wybodaeth, er enghraifft, os yw trydydd parti yn cael ei grybwyll yn y cofnod ac mae'n debygol ei f/bod yn dal i fod yn fyw, yna gellir ymestyn y cyfnod y bydd y cofnod 'ar gau' er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei diogelu.

Nid yw cofnodion sydd 'ar gau' ar gael ar gyfer ymchwil cyffredinol, ond gall staff ddarparu gwybodaeth ohonynt mewn amgylchiadau penodol:

- Os yw'r sawl rydych chi'n chwilio am wybodaeth amdano wedi marw, yna gall staff Archifau Gwent gynnal ymchwil os darperir prawf digonol eu bod wedi marw (tystysgrif marwolaeth yn ddelfrydol) ynghyd â dull adnabod dilys ar gyfer y sawl sy'n holi.
- Gellir rhoi mynediad at ddibenion ystadegol ac ymchwil, ar yr amod bod yr ymchwilydd yn chwilio'r casgliad(au) dim ond i gasglu data ystadegol, dienw at ddibenion eu hymchwil. Bydd gofyn i'r ymchwilydd lofnodi ymwadiad i gadarnhau eu bod yn deall yr amodau mynediad a nodwyd ac yn cydymffurfio â nhw.

Os hoffech gael mynediad at eich cofnodion ysbyty eich hun, neu chwilio ar ran ffrind neu aelod o'r teulu sy'n fyw, bydd gofyn i chi gyflwyno Cais Mynediad at Ddata gan y Testun i Fwrdd Iechyd Aneurin Bevan trwy'r ddolen hon Cysylltwch â Ni - Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Cysylltwch â ni trwy enquiries@gwentarchives.gov.uk a byddwn yn hapus i'ch cynghori ymhellach am unrhyw ymholiadau ynghylch cael mynediad at gofnodion ysbytai ac iechyd.

# Y Casgliadau:

## Cyfrifon y Comisiwn Elusennau

| | | |
|---|---|---|
| D2191/17 | Ysbyty a Fferyllfa Bwthyn Fictoria (gydag adroddiadau), Y Fenni | 1902-1932 |
| D2191/48 | Elusen Ysbyty Cas-gwent a'r Cylch | 1929-1931 |
| D2191/60 | Elusen Ysbyty neu Elusendy Thomas Powis, Cas-gwent | 1901-1954 |

| | | |
|---|---|---|
| D2191/152 | Ysbyty Cyffredinol a Fferyllfa Trefynwy | 1900-1936 |
| D2191/ | Ysbyty Brenhinol Gwent (Ysbyty Casnewydd a Sir Fynwy), gydag adroddiadau | 1907-1939 |
| D2191/177 | Ysbyty'r Gweithwyr Abertyswg, Elusen y Llywodraethwr | 1929 |
| D2191/190 | Ysbyty Pont-y-pŵl a'r Fro, gydag adroddiadau | 1904-1936 |

## Cofnodion Iechyd Sirol

| | | |
|---|---|---|
| C/HC/R1/190 | Pwyllgor Iechyd y Cyhoedd. Atodlen o gwestiynau ac atebion am faterion iechyd y cyhoedd a gyflwynwyd i'r Cyngor Sir | 1914 |
| C/HC/R1/193 | Deddf Hysbysu am Enedigaethau, 1907.<br>1. Adroddiad Cynhadledd Swyddogion Meddygol Iechyd Rhanbarthol<br>2. Cynllun y Sir | 1915 |
| C/HC/R1/194 | Adroddiad Arbennig am Lesiant Babanod | 1916 |
| C/HC/R1/197 | Adroddiad arbennig y Swyddog Meddygol Sirol am gydlynu gwasanaethau meddygol a nyrsio yn y sir a darparu cyfleusterau clinigol ar y cyd | 1919 |
| C/HC/R1/201 | Llyfryn o waith Adran Meddygol, Cyngor Sir Fynwy | 1922 |
| C/HC/R1/202 | Adroddiad arbennig y Swyddog Meddygol Sirol ynglŷn â Dosbarth Trefol Nant-y-glo a'r Blaenau | 1924 |

| | | |
|---|---|---|
| C/HC/R1/203 | Adroddiad arbennig y Swyddog Meddygol Sirol am gyflenwad dŵr Blaenafon | 1926 |
| C/HC/R1/204 | Cyflenwad dŵr Blaenafon: ateb y Swyddog Iechyd Meddygol Sirol i'r achos a ymgorfforwyd yn llythyr Cyngor Dosbarth Trefol Blaenafon dyddiedig Rhagfyr, 1926 | 1927 |
| C/HC/R1/205 | Adroddiad am Ganser gyda chyfeiriad arbennig at: i. Y posibilrwydd o waith ataliol gan awdurdodau iechyd cyhoeddus ii. Nifer yr achosion o ganser yn Sir Fynwy | 1928 |
| C/HC/R1/208 | Adroddiad y Swyddog Iechyd Meddygol Sirol am Ddarpariaeth yr Ysbyty Cyffredinol Newydd | 1938 |
| C/HC/R1/209 | Pwerau a dyletswyddau'r Cyngor Sir ym maes Iechyd y Cyhoedd | 1938 |
| C/HC/R1/210 | Silicosis yn Sir Fynwy: Adroddiad Gwyn Rocyn Jones | 1943 |
| C/HC/R1/211 | Adroddiad am Bolisi Ysbytai Ar ôl y Rhyfel a Gwasanaethau Cynghreiriol | 1945 |
| C/HC/R1/212 | Clefyd Weil yn Sir Fynwy: Adroddiad Gwyn Rocyn Jones | 1946 |
| C/HC/R1/213 | Cyngor Sir Fynwy: Canllaw i Wasanaethau Iechyd Lleol | 1948 |
| C/HC/R1/215 | Cyngor Sir Fynwy: Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, 1946: cynigion yn ymwneud â gwasanaethau iechyd o dan adrannau 22-29 a 51, a gymeradwywyd gan y Gweinidog Iechyd | tua 1948 |

| | | |
|---|---|---|
| C/HC/R1/218 | Cyngor Sir Fynwy. Gwasanaethau a ddarperir ar gyfer yr henoed a'r rheiny sy'n sâl ac yn anabl | 1964 |
| C/HC/R1/219 | Cyngor Sir Fynwy. Gwasanaethau a ddarperir ar gyfer yr henoed a'r rheiny sy'n sâl ac yn anabl | 1965 |
| C/HC/R1/222 | Gwasanaethau Iechyd Sirol yn Sir Fynwy. Disgrifiad byr o'r gwasanaethau sydd ar gael a ble i'w cael | Heb ddyddiad |
| C/Misc Maps 24 | Cynlluniau ar gyfer ysbyty achosion brys yng Nghoed y Gric , Tref Gruffydd | 1940 |
| C/Misc R 39 | Cyd-adroddiad gan y Swyddog Cymorth Cyhoeddus a'r Swyddog Meddygol Sirol am sefydliadau cyhoeddus a drosglwyddwyd i Sir Fynwy o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1929 | 1930 |
| C/Misc R 78 | Adroddiad am gost adeiladau cyhoeddus ac ysbytai | 1938 |
| C/Misc R 123 | Adroddiad gan y Swyddog Meddygol Sirol am bolisi ysbytai ar ôl y rhyfel a'r gwasanaethau cynghreiriol | 1945 |
| C/Misc R 124 | Blueprint of a Welsh Hospital Service: A Square Deal for Everyman | 1945 |
| C/Misc R 125 | Gwasanaethau Ysbyty yn Ne Cymru a Sir Fynwy | 1945 |
| C/Misc R 180 | Adroddiad am farwolaethau babanod gan gyfeirio'n arbennig at Sir Fynwy | 1908 |

| | | |
|---|---|---|
| C/Misc R 207<br>C/Misc R 219 | Bwrdd Ysbyty Rhanbarthol Cymru: Gwasanaethau Ysbytai ac Arbenigol a ddarperir o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol | 1954-1956 |
| C/Misc R 252 | Adroddiad y Pwyllgor ar Lesiant Plant mewn Ysbytai | 1959 |
| C/Misc R 398 | Adroddiadau blynyddol Commissioners in Lunacy (yn cwmpasu Cymru a Lloegr): 48ain Adroddiad Blynyddol | 1894 |
| C/Misc R 399 | Adroddiadau blynyddol Commissioners in Lunacy (yn cwmpasu Cymru a Lloegr): 52ail Adroddiad Blynyddol | 1898 |
| C/Misc R 474 | Adroddiad: Plant mewn Ysbytai yng Nghymru | 1972 |
| D1078/244<br>D1078/245 (p.14) | Papurau yn ymwneud â defnyddio tŷ yn Pillgwenlly, Casnewydd fel ysbyty i filwyr | 1844 |
| D1496/7<br>D1496/30 | Prydlesi tir Ysbyty Syr Walter Montague, Cas-gwent | 1721-1762 |
| D3293/B | Adroddiadau ynglŷn â gweithgareddau cangen Sir Fynwy o'r Groes Goch Brydeinig yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf | tua 1917 |
| D3343 | Cofnodion Adeiladu a Datblygiad Ysbytai Bwrdd Iechyd Cymru. Yn cynnwys cynlluniau datblygu a gohebiaeth sy'n ymwneud yn bennaf ag Ysbyty Neuadd Nevill (Nevill Hall), y Fenni ac Ysbyty Brenhinol Gwent yng Nghasnewydd | 1959-1971 |
| D3345 | Cofnodion y Groes Goch Brydeinig a'r Ysbyty. Yn cynnwys cyfnodolion, erthyglau, rhaglenni, cylchlythyrau, deunydd printiedig a ffotograffau | tua 1911-1995 |

| | | |
|---|---|---|
| D4405 | Cofnodion Cynghrair Cyfeillion Ysbyty Gogledd Gwent. Yn cynnwys cofnodion, cyllid, gohebiaeth ac adroddiadau | 1949-2000 |
| D4405/27 | Cyhoeddiad. 'Ad-drefnu Ysbytai yng Ngogledd Sir Fynwy a Chanolbarth Cymru: Cynigion Bwrdd Ysbytai Cymru' | 1973 |
| D4405/28 | Cyhoeddiad. 'Datblygu Ysbytai yng Nghanolbarth Cymru: Pam mae'n angenrheidiol; Sut allwch chi helpu' | tua 1970-1995 |
| D4469 | Cofnodion Eugene Cross, Ysbyty Neuadd Nevill (Nevill Hall) ac Ysbyty Bwthyn y Fenni | 1894–1974 |
| D4947 | Adroddiadau Morbidrwydd a Marwolaethau Obstetreg Dr. Leonard Alexander Ogilvie | 1946-1979 |
| DPA 39/95 | Cytundeb tenantiaeth yn ymwneud â defnyddio ysgol Snatchwood fel cyfadeilad ysbyty | 1941 |
| Q/LR/1-73 | Ffurflenni Gwallgofiaid | 1829-1910 |

## Canolfannau Iechyd

| | | |
|---|---|---|
| C/HC/R1/220 | Cyngor Sir Fynwy. Canolfan Iechyd Rhisga | Heb ddyddiad |
| D5175/19 | Amrywiol Gynlluniau Canolfannau Iechyd Sirol/darnau o'r Arolwg Ordnans | 1977-tua 1980au |

# Ysbytai

Mae'r adran hon wedi'i threfnu yn ôl lleoliad yr ysbyty.

## Aberbargoed

## Ysbyty Bwthyn y Gweithwyr Dyffryn Powell ac yn ddiweddarach Ysbyty Aberbargoed a'r Fro

| | | |
|---|---|---|
| D4700/1 | Ysbyty Bwthyn y Gweithwyr Dyffryn Powell: cofrestr derbyn a rhyddhau | 1910-1923 |
| D5093/8 | Ysbyty'r Gweithwyr Dyffryn Powell: llyfrau anesthetig a phelydr-X | 1910-1948 |
| D5922/8 | Cofnodion Ysbyty Bwthyn y Gweithwyr Dyffryn Powell, yn ddiweddarach Ysbyty Aberbargoed a'r Fro. Yn cynnwys cofrestrau derbyn/rhyddhau a chofrestrau cleifion allanol | 1924-1980 |

## Y Fenni

## Fferyllfa y Fenni/Ysbyty Bwthyn Fictoria

| | | |
|---|---|---|
| D874/69/16 | Papurau amrywiol yn ymwneud ag ysbytai'r Fenni. Yn cynnwys trafodion cyfarfod cyhoeddus ynglŷn â sefydlu fferyllfa gyffredinol; cytundeb ynghylch ysbyty ynysu; prynu tir ar gyfer fferyllfa ac ysbyty bwthyn ar y cyd | tua 1828-1901 |
| D911/1-5 | Ysbyty Bwthyn Fictoria: llyfrau cofnodion | 1914-1948 |
| D912/15 | Fferyllfa'r Fenni: llyfr cofnodion a chyfrifon | 1828-1902 |

| | | |
|---|---|---|
| D992.5 (69) | Erthygl am gefndir hen lun sy'n dangos Ardalydd y Fenni yn gosod y garreg sylfaen ar gyfer Ysbyty Bwthyn Fictoria | Heb ddyddiad |
| D1348/34 | Ysbyty a Fferyllfa Bwthyn Fictoria: rheolau a deddfau lleol, adroddiadau blynyddol, cyfrifon a chofrodd o'r ysbyty | 1930-1933 |
| D1348/58 | Poster o 13eg Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cronfa Sadwrn Ysbyty Gweithwyr y Fenni | 1907 |
| D4405 | Cofnodion Ysbyty Bwthyn Fictoria gan gynnwys llyfrau arian parod, rhaglenni a gohebiaeth/toriadau newyddion yn ymwneud â chau'r ysbyty | 1927-1975 |
| D4469/4 | Ysbyty Bwthyn Fictoria: Llyfr Ymwelwyr | 1849-1974 |

## Ysbyty Llys Maindiff, Y Fenni

| | | |
|---|---|---|
| Misc Mss 1561 | Cofnod adeiladwyr am adeiladu Ysbyty Llys Maindiff | 1936-43 |

## Ysbyty Neuadd Nevill (Nevill Hall), Y Fenni

| | | |
|---|---|---|
| D4405/34 | Rhaglen ar gyfer Gŵyl yr Ysbyty ym Mharc Bailey, Y Fenni | 1966 |
| D4405/38 | Cyfansoddiad Cynghrair Cyfeillion Neuadd Nevill, Y Fenni | 1979 |
| D4405/40 | Rhaglen ar gyfer agoriad swyddogol estyniad newydd i Ganolfan Feddygol Ôl-raddedig Neuadd Nevill (Nevill Hall) | 1980 |

# Ysbyty Pen-y-fal, Y Fenni

| | | |
|---|---|---|
| CD/AA/1-11 | Gweithredoedd Lloches y Fenni | tua.1700-tua.1940 |
| C/HC/R1/191 | Adroddiad ar ôl ymchwiliad i'r achosion niferus o Dwymyn Teiffoid yn y Lloches yn Y Fenni rhwng mis Ebrill a mis Awst 1914 | 1914 |
| D853/27 | Rheolau ar gyfer Llywodraethu Lloches Sir Fynwy, Y Fenni | 1905 |
| D910/7 (hefyd D2191/8) | Adroddiadau Blynyddol cyntaf y Pwyllgor Ymwelwyr | 1853 |
| D910/8 | Adroddiadau blynyddol y Pwyllgor Ymwelwyr: 95ed Adroddiad Blynyddol | 1948 |
| D1348/33 | Adroddiadau blynyddol y Pwyllgor Ymwelwyr | 1916-1917 |
| D3202 | Cyd-loches Gwallgofiaid y Siroedd, cofnodion | o'r 19eg -20fed Ganrif |
| D3253/1-3 | Capel Ysbyty Pen-y-fal: cofrestrau claddu | 1853-1948 |
| D5081 | Cyd-loches Gwallgofiaid y Siroedd, y Fenni (Lloches Gwallgofiaid Sir Fynwy), Ysbyty Pen-y-fal yn ddiweddarach, cofnodion | 1895-1999 |
| D6283 | Cofnodion Cyd-loches Gwallgofiaid y Siroedd | 1863-1987 |
| Q/LRA/1-8 | Ffurflenni Gwallgofiaid: Cyd-loches Gwallgofiaid y Siroedd, Y Fenni | 1853-1889 |

| | | |
|---|---|---|
| Q/PRE/12 | Adroddiadau blynyddol y Pwyllgor Ymwelwyr | 1871-1879 (cyfrol wedi'i hargraffu) |
| Q/PRE/13 | Adroddiadau blynyddol y Pwyllgor Ymwelwyr | 1880-1890 (cyfrol wedi'i hargraffu) |
| Q/PRE/14 | Adroddiadau blynyddol y Pwyllgor Ymwelwyr | 1891-1903 (cyfrol wedi'i hargraffu) |
| Q.S.P & R 23/10 | Adroddiad y Pwyllgor a ffurfiwyd at ddibenion codi Cyd-Loches i Wallgofiaid ar gyfer Siroedd Mynwy, Henffordd, Brycheiniog a Maesyfed | 3 Ionawr 1848 |
| Q.S.P & R 23/12 | Adroddiad y Pwyllgor a ffurfiwyd at ddibenion codi Cyd-Loches i Wallgofiaid ar gyfer Siroedd Mynwy, Henffordd, Brycheiniog a Maesyfed | 18 Hydref 1847 |

## Abertyleri

## Ysbyty Abertyleri a'r Fro, Aber-bîg

| | | |
|---|---|---|
| D913 | Cofnodion Ysbyty Abertyleri a'r Fro gan gynnwys llyfrau cofnodion 1916-1948, adroddiadau'r Metron, llyfrau llawdriniaeth ac ystadegau cleifion mewnol | 1916-1947 |

## Blaenafon

## Ysbyty Blaenafon

| | | |
|---|---|---|
| D5922/1 | Cofnodion Ysbyty Blaenafon. Yn cynnwys cofnodion ac adroddiadau ward | 1961 - 196 |

# Blaenau

## Ysbyty’r Blaenau a'r Fro

| | | |
|---|---|---|
| D895 | Adroddiadau blynyddol | 1919 - 1947 |
| D4405/30 | Rhaglen ar gyfer agor adain famolaeth newydd yn Ysbyty Dosbarth Nant-y-glo a'r Blaenau | Mawrth 1932 |
| D5922/2 | Mae cofnodion Ysbyty'r Blaenau a’r Fro yn cynnwys cofrestrau derbyn a rhyddhau, cofrestrau damweiniau ac argyfwng a chofrestrau achosion mamolaeth | 1936-1979 |

# Caerffili

## Ysbyty’r Glowyr Dosbarth Caerffili

| | | |
|---|---|---|
| D5093/4 | Cofnodion Ysbyty’r Glowyr Dosbarth Caerffili. Yn cynnwys cofrestrau llawdriniaethau, cofnodion y marwdy a chofnodion mamolaeth | 1956-1988 |
| D5096 | Cofnodion Ysbyty’r Glowyr Dosbarth Caerffili. Yn cynnwys cofrestrau genedigaethau, cofrestrau mamolaeth ac adroddiadau ward | 1958-1954 |

# Cas-gwent

## Ysbyty'r Groes Goch Tŷ Gwy, Cas-gwent

| | | |
|---|---|---|
| D5532 | Rhestr o gleifion yn Nhŷ Gwy | 1915-1918 |

## Crucywel

## Ysbyty Coffa'r Rhyfel Crucywel

| | | |
|---|---|---|
| D1132 | Ysbyty Coffa'r Rhyfel Crucywel: cofnodion y pwyllgor rheoli, cofnodion y pwyllgor cyllid a llyfr derbyniadau ar gyfer ffioedd ac arian arall | 1938-1948 |

## Cwmbrân

## Ysbyty Mamolaeth y Faenor Llanfrechfa, Cwmbrân

| | | |
|---|---|---|
| D5922/7 | Ysbyty Mamolaeth y Faenor Llanfrechfa: llyfr achosion | 1950 |

## Glynebwy

## Ysbyty Glynebwy

| | | |
|---|---|---|
| D912/16 | Ysbyty Glynebwy: Llyfr Ymwelwyr | 1903- 1939 |
| D5922/5 | Cofnodion Ysbyty Glynebwy. Yn cynnwys cofnodion Cymdeithas Cymorth Meddygol y Gweithwyr Glynebwy, cofrestrau derbyn a rhyddhau, cofrestrau llawdriniaethau ac adroddiadau ward | tua 1920-1995 |

## Ysbyty Gwirfoddol Glynebwy

| | | |
|---|---|---|
| D914/25 | Ysbyty Gwirfoddol Glynebwy: Cofrestr Cleifion Allanol | 1931-1946 |
| D5922/6 | Ysbyty Gwirfoddol Glynebwy: Cofnodion Cleifion Mewnol | 1931-1946 |

## Cymdeithas Cymorth Meddygol y Gweithwyr Glynebwy

| | | |
|---|---|---|
| D914 | Cofnodion Cymdeithas Cymorth Meddygol y Gweithwyr Glynebwy. Yn cynnwys llyfrau cofnodion, llyfrau arian parod, gohebiaeth a chofrestrau cleifion | 1905-1948 |
| D2472/9-16 | Cofnodion Cymdeithas Cymorth Meddygol y Gweithwyr Glynebwy. Yn cynnwys llyfrau cofnodion, llyfrau arian parod a chyfnodolyn 'Doctor and School Fund' | 1896-1971 |

## Trefynwy

## Ysbyty a Fferyllfa Trefynwy, yn ddiweddarach Ysbyty Cyffredinol Trefynwy

| | | |
|---|---|---|
| D909/1-6 | Ysbyty a Fferyllfa Trefynwy: llyfrau cofnodion a llyfr adroddiadau | 1857-1956 |
| D912/12-14 | Cofnodion Ysbyty a Fferyllfa Trefynwy. Yn cynnwys cofnodion llywodraethwyr, rhestr o danysgrifwyr ac adroddiadau blynyddol gyda chyfrifon | 1810-1937 |
| D6132 | Cofnodion Ysbyty Cyffredinol Trefynwy. Yn cynnwys cyfrifon ac adroddiadau ariannol, gohebiaeth, cynlluniau a ffotograffau | tua 1901-1970 |
| Misc Mss 13 | Rheolau Fferyllfa Trefynwy | Heb ddyddiad |

## Casnewydd

## Ysbyty Mamolaeth Lydia Beynon

| | | |
|---|---|---|
| D6305 | Llyfr Babanod (a roddwyd gan yr ysbyty i ddarpar famau) | 1962 |

## Ysbyty Brenhinol Gwent

| | | |
|---|---|---|
| D3293/A | Adroddiadau blynyddol Ysbyty Brenhinol Gwent | 1854-1946 |
| D3293/A/28 | Llythyr gan yr Ysgrifennydd Cartref, Mr R McKenna, yn cadarnhau cymeradwyaeth y Brenin i ddefnyddio'r term 'Brenhinol' yn nheitl yr ysbyty | 14 Gorffennaf 1913 |
| D5093/3 | Cofnodion Ysbyty Brenhinol Gwent. Yn cynnwys cofrestrau cleifion a rhestrau aros | 1942-1971 |
| D5320 | Apêl am gyfraniadau | 1923 |
| D5922/9 | Ysbyty Brenhinol Gwent: cofrestrau genedigaethau | 1966-1981 |
| DPA 86/444 | Ysbyty Brenhinol Gwent: taflen apêl | 1919 |
| Misc Mss 1347 | Adroddiad Ysbyty a Fferyllfa Casnewydd | 1885 |

## Ysbyty Sant Cadog, Caerllion

| | | |
|---|---|---|
| D5080 | Cofnodion Ysbyty Sant Cadog. Yn cynnwys cofrestrau cleifion, adroddiadau ward a chofnodion staff | 1900-1998 |
| Misc Mss 125 | Cynlluniau Ysbyty Sant Cadog | Heb ddyddiad |

## Clafdy Tŷ Woolaston, yn ddiweddarach Ysbyty Sant Gwynllyw

| | | |
|---|---|---|
| D443 | Llythyr yn rhoi rhodd o lyfrgell o 100 o lyfrau i filwyr clwyfedig yn Nhŷ Woolaston a ffotograff sy'n dangos cyflwyno'r rhodd hon | Llungopïau gwreiddiol tua. 1944 |
| D5093/6 | Cofnodion Clafdy Tŷ Woolaston/ Ysbyty Sant Gwynllyw. Yn cynnwys cofrestrau genedigaethau a llawdriniaethau | tua 1920 - 1959 |
| D5922/10 | Clafdy Tŷ Woolaston: cofrestrau genedigaethau | 1948-1966 |

## Oakdale

## Ysbyty'r Gweithwyr Oakdale

| | | |
|---|---|---|
| D5093/7 | Cofnodion Ysbyty'r Gweithwyr Oakdale. Yn cynnwys cofrestrau derbyn, cofrestr gweithrediadau a chofrestr o'r 'Cyffuriau Peryglus a Roddwyd' | 1920-1999 |

## Pont-y-pŵl

## Ysbyty'r Sir, Pont-y-pŵl

| | | |
|---|---|---|
| D5922/4 | Cofnodion Ysbyty'r Sir, Pont-y-pŵl (Ysbyty Panteg). Yn cynnwys cofrestrau cleifion, cofrestrau genedigaethau a chofrestrau achosion mamolaeth | 1921-1983 |

## Ysbyty Pont-y-pŵl a'r Fro

| | | |
|---|---|---|
| D4073 | Ysbyty Pont-y-pŵl a'r Fro: Cynlluniau | 1913-1973 |

## Tredegar

## Ysbyty Bedwellte

| | | |
|---|---|---|
| D5093/9/1 | Ysbyty Bedwellte: cofnodion staff | 1949-1971 |

## Ysbyty Bwthyn Parc Tredegar, yn ddiweddarach Ysbyty Cyffredinol Tredegar

| | | |
|---|---|---|
| D5922/11 | Cofnodion Ysbyty Bwthyn Parc Tredegar, Ysbyty Cyffredinol Tredegar yn ddiweddarach. Yn cynnwys cofrestrau derbyn a rhyddhau, cofrestrau staff a chleifion a chofnodion mamolaeth | 1913-1986 |

## Cymdeithas Cymorth Meddygol y Gweithwyr Tredegar

| | | |
|---|---|---|
| D3246 | Cofnodion Cymdeithas Cymorth Meddygol y Gweithwyr Tredegar, yn cynnwys cofnodion, cyllid, gohebiaeth a chytundebau cyfreithiol | 1873-1995 |

## Clafdy Tŷ Bryn, yn ddiweddarach Ysbyty Sant Iago, Tredegar

| | | |
|---|---|---|
| D5922/12 | Cofnodion Clafdy Tŷ Bryn, yn ddiweddarach Ysbyty Sant Iago. Yn cynnwys cofrestrau derbyn a rhyddhau, cofrestrau genedigaethau, cofrestrau marwolaethau a chofrestrau gweithredu | 1933-1976 |

## Brynbuga

## Ysbyty Cefn Ila

| | | |
|---|---|---|
| D5922/3 | Ysbyty Cefn Ila: llyfr achosion | 1965-1975 |

## Pwyllgorau Rheoli’r Ysbytai

| | | |
|---|---|---|
| D2182/1-17 | Cofnodion Pwyllgor Rheoli Ysbytai Gogledd Sir Fynwy | 1948-1974 |
| D2182/18-21 | Cofnodion Pwyllgor Rheoli Ysbyty Meddwl Sir Fynwy/Ysbyty Dyffryn Wysg | 1948-1965 |
| D2796 | Cofnodion Pwyllgor Rheoli Ysbyty Gogledd Gwent (Awdurdod Iechyd Gwent). Yn cynnwys llyfrau cofnodion, cofrestrau buddsoddiadau/contractau a dogfennau ymgynghorol sy'n ymwneud ag Ysbyty Neuadd Nevill (Nevil Hall), Y Fenni | 1953-1981 |
| D3983 | Pwyllgor Rheoli Ysbyty Rhymni a Sirhywi, cyfrifon ac adroddiadau | 1951-1965 |
| D5093/1 | Pwyllgor Rheoli Ysbytai Casnewydd a Dwyrain Sir Fynwy | 1949-1974 |
| D5093/2 | Cyhoeddiadau Awdurdod Iechyd Gwent | 1980-1985 |

## Ysbytai Ynysu

| | | |
|---|---|---|
| C/HC/R1/188 | Triniaeth y Sanatoriwm ar gyfer Cleifion Twbercwlosis: copïau o benderfyniadau, gohebiaeth ac amcangyfrifon | 12 Ebrill 1913 |
| C/HC/R1/189 | Adroddiad arbennig am ddarpariaeth ysbytai ynysu ar gyfer Ardaloedd Trefol Abercarn, Bedwas a Machen, Bedwellte, Mynyddislwyn, Rhymni, Rhisga a Thredegar | 8 Ionawr 1914 |

| | | |
|---|---|---|
| C/HC/R1/196 | Adroddiad arbennig am ddarparu ysbytai ynysu ar gyfer clefydau heintus (ac eithrio'r Frech Wen) | 28 Rhagfyr 1918 |
| C/HC/R1/200 | Adroddiad am y cyfleusterau sy'n bodoli ar gyfer ynysu cleifion heintus yn Sir weinyddol Sir Fynwy | 1 Medi 1921 |
| C/HC/R1/206 | Datganiad rhagarweiniol ac adroddiad y Swyddog Iechyd Meddygol Sirol am yr Arolwg a'r Cynllun o dan Adran 33 Deddf Llywodraeth Leol 1929 ar gyfer darparu cyfleusterau ysbyty i bobl sy'n dioddef o glefyd heintus | 4 Chwefror 1932 |
| C/HC/R1/207 | Adroddiad arbennig am ddarparu cyfleusterau ysbyty ynysu | 22 Gorffennaf 1932 |
| C/Misc R 27 | Adroddiad ymchwiliad i 'Ysbyty Ynysu ar y Cyd' arfaethedig ar gyfer Cwm Dwyreiniol Trefynwy | 1918 |
| C/Misc R 28 | Adroddiad ymchwiliad i ddarparu gwasanaethau ysbyty ynysu ar gyfer Sir Fynwy | 1921 |
| D874/44 | Pwyllgor Ysbyty Ynysu ar y Cyd Bwrdeistref y Fenni: llyfr cofnodion | 1933-1949 |
| C/Misc Maps 78 | Map Arolwg Ordnans (Sir Fynwy) gyda rhanbarthau'r ysbytai ynysu wedi eu gosod drosto | 1935 |

## Gwasanaethau Mamolaeth a Bydwreigiaeth

| | | |
|---|---|---|
| C/HCM | Gwasanaeth Bydwreigiaeth Sir Fynwy. Yn cynnwys cofrestrau, cofnodion achosion, cofnodion cyn-enedigol, llyfrau cyffuriau bydwragedd, cofnodion teithio a gohebiaeth | 1911-1969 |

| | | |
|---|---|---|
| C/HC/M3/1 | Cyngor Sir Fynwy. Pwyllgor Mamolaeth a Llesiant Plant: llyfrau cofnodion | 1919-1948 |
| C/HC/R1/192 | Crynodeb o Ddeddf Marwolaethau Babanod a Hysbysu am Enedigaethau | 1907 |
| C/HC/R3/1-29 | Cyngor Sir Fynwy. Cofrestr Genedigaethau (Deddfau Bydwragedd) | 1915-1973 |
| C/HC/R4/1-42 | Cyngor Sir Fynwy. Adroddiadau'r Pwyllgor Mamolaeth a Llesiant Plant | 1916-1946 |
| C.Misc R 25 | Cofrestr o fydwragedd sy'n ymarfer yn Sir Fynwy | 1914 |
| D98 | Cymdeithas Nyrsio Sir Fynwy: Cartref Mamolaeth Tredegar | 1922-1952 |
| D5093/5 | Cofrestrau achosion bydwragedd dosbarth Caerffili | 1950-2003 |

## Ffotograffau a Chardiau Post

| | | |
|---|---|---|
| Caerllion (14) | Cerdyn post o Loches Casnewydd | tua 1900 |
| Trefynwy (37) | Ffotograff o Ysbyty a Fferyllfa Trefynwy | tua 1910 |
| Casnewydd (24) | Ffotograff o'r 'Ysbyty’ | Heb ddyddiad |
| Casnewydd (25) | Cerdyn post lliw yr Ysbyty Sirol (Ysbyty Brenhinol Gwent) | tua 1906 |

| | | |
|---|---|---|
| Casnewydd (26) | Ffotograff o Ysbyty Brenhinol Gwent | Heb ddyddiad |
| D3345/9 | Ffotograff o chwech o 'ferched y llys' a Brenhines y Carnifal yng Ngŵyl Goffa Ysbyty Brenhinol Gwent | Awst 1947 |
| D3345/11-12 | Ffotograffau o ymweliad Margaret Lockwood, yr actores ffilm, â ffair Ysbyty Brenhinol Gwent yng Nghae Friars ac o'i hymweliad â ward y plant | tua 1935-1939 |
| D3345/13 | Cerdyn post ffotograffig o dîm Clwb Criced Ysbyty Casnewydd | 1911 |
| D3345/14 | Ffotograff o gyfranogwyr ac eraill yng Nghystadleuaeth Dawnsio Ffocstrot Tarian Her Ysbyty Brenhinol Gwent | tua 1925-1935 |
| D3345/18 | Llun o stondin Ysbyty Brenhinol Gwent ym Mharc Shaftsbury, Casnewydd | tua 1920-1930 |
| D3345/20-21 | Ffotograffau o ymweliad aelodau'r cast o'r rhaglen radio 'Just William', ag Ysbyty Brenhinol Gwent | tua 1948-1955 |
| D3580/16 | Portreadau o Dr. J.W a Mrs Davies. Dr. J.W Davies oedd Swyddog Meddygol Iechyd Bwrdd Lleol / Cyngor Dosbarth Trefol Glynebwy rhwng 1880 a 1917 | Heb ddyddiad |
| D4405/30 | Ffotograffau printiedig (y tu mewn i raglen) o'r Ymweliad Brenhinol ag Ysbyty Dosbarth Nant-y-glo a'r Blaenau | 1932 |
| D4405/39 | Ffotograffau (du a gwyn) o gyflwyno tystysgrif i Gynghrair Cyfeillion Ysbyty Bwthyn Fictoria 13 mlynedd ers ei ffurfio | 1979 |

| | | |
|---|---|---|
| D4469/3 | Llun o Barti Gardd yn Ysbyty Neuadd Nevill (Nevill Hall) yn nodi 30 mlynedd o'r GIG | 1978 |
| Misc. Mss 1686 | Copïau o ffotograffau o Dŷ Brynglas fel Ysbyty'r Groes Goch yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf | tua 1915 |
| Misc. Mss 1842 | Ffotograff o Ysbyty Brenhinol Gwent | Heb ddyddiad |

## Llyfrau

| | |
|---|---|
| D4405/26 | E. Goodwin (lluniwyd gan) *Hospital Souvenir: The History of a Noble Enterprise*. 1930 |
| Llyfrgell 296 | Thomas Baker Jones *History of the Royal Gwent Hospital 1839-1927*. The South Wales Argus Ltd: Newport 1928 |
| Llyfrgell 297 | Robin Jones *History of the Red Cross in Monmouthshire (Gwent) 1910-1918*. The Raven Press Ltd: Pontypool 1988 |
| Llyfrgell 299 | Gareth Jones *The Aneurin Bevan Inheritance*. Old Bakehouse Publications: Abertillery 1998 |
| Llyfrgell 300 | Brian Peeling (compiled and edited by) *The Royal Gwent & St. Woolos Hospitals: A Century of Service in Newport*. Old Bakehouse Publications: Abertillery 2004 |
| Llyfrgell 301 | Warren William Lewis *The Penny Castle*. Warren William Lewis: Pontypool 2003 |
| Llyfrgell 1479 | Joan E. Grundy *A Dictionary of Medical and Related Terms for the Family Historian*. Swansong Publications: Rotherham 2006 |

## Erthyglau a Chyhoeddiadau

| | |
|---|---|
| Llyfrgell 558 | Jan King 'Infant Mortality in Monmouthshire 1908-1914' yn *Presenting Monmouthshire* No.84 pp.58 1998 |
| Llyfrgell 613 | C. T. Clissitt J.P. 'The Health of Newport' yn *Newport Encyclopaedia* p.40-41 1937 |
| Llyfrgell 613 | Mrs H. J. Hart J.P. 'Newport Borough Mental Hospital' yn *Newport Encyclopaedia* p.62 1937 |
| Llyfrgell 613 | S. Cecil Hill. 'The Royal Gwent' yn *Newport Encyclopaedia* p.129-132 1937 |
| Llyfrgell 1378 | John White 'Joint Counties Lunatic Asylum' yn *Guide to the Town and Neighbourhood of Abergavenny* p.44-47 1867 |

## Gwefannau Defnyddiol

Archives Hub https://archiveshub.jisc.ac.uk/

Y Groes Goch Brydeinig: Cronfa Ddata Gwirfoddolwyr y Rhyfel Byd Cyntaf
https://vad.redcross.org.uk/

Gofal Meddygol yn y Wyrcws http://www.workhouses.org.uk/life/medical.shtml

Y Llyfrgell Brydeinig https://www.bl.uk/

Cronfa Ddata Cofnodion Ysbytai'r Archifau Gwladol
http://www.nationalarchives.gov.uk/hospitalrecords/

Llyfrgell Wellcome https://wellcomelibrary.org/

# Contact us

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y cofnodion sydd gennym, neu sut i ddechrau eich ymchwil, cysylltwch â ni yn:

Archifau Gwent
Y Swyddfeydd Cyffredinol
Steelworks Road
Glyn Ebwy NP23 6AA
Ffôn: 01495 766261
enquiries@gwentarchives.gov.uk
www.gwentarchives.gov.uk


CIRCLE
Capel Penuel
Burl. Gd.
Church
HARCOURT TERRACE
QUEEN VICTORIA
Town Hall
Olympia
MARKET STREET
LOWER SALISBURY STREET
P.H.
MORGAN
Temperance Hall
P.O.
B.M. 1068·4
Capel Saron (Indt.)
1065
CEFN-RHOS
PARK ROW
Cottage Hospital
Bowling Green
Tennis Ground
Children's Homes
1068
P.H.
PENCOED
PARK VIEW
Fish Ponds
218a
·288
B.M. 1048·6
225
·498
323a
1·775
B.M. 1107·2
L.B.
Reservoir
229
1·688
ABERFFRWD
1114
MORGAN TER.
INKERMAN TERR
PARKVILLE
Stable
1019
223